

Housemates, Mark Douet



Pecyn Swydd
**Cydlynnydd
Datblygu
Artistiaid – De**

Cyflog Cychwynnol: £28,000 y flwyddyn (pro
rata: £22,400 gwirioneddol)

Oriau: Pedwar diwrnod yr wythnos
(Dydd Llun – Iau)

Contract: Parhaol

Dyddiad cau ceisiadau: 23/11/2026 hanner nos


Hijinx

CROESO

Diolch yn fawr i chi am eich diddordeb yn Hijinx ac yn ein swydd Cydlynnydd Datblygu Artistiaid - De. Rydym yn wirioneddol falch eich bod chi yma.

Yn Hijinx mae datblygu artistiaid yn ganolog i'n cenhadaeth. Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo artistiaid ag anabledd dysgu ac awtistig, gan eu cefnogi i ddatblygu eu hymarfer creadigol, sgiliau, hyder ac uchelgais, a chreu cyfleoedd i weithio'n broffesiynol yn Hijinx ac ar draws y diwydiannau creadigol ehangach. Credwn mewn creu'r amodau i bobl dyfu, llunio cysylltiadau ystyrlon, cymryd risgiau creadigol a ffurfio eu dyfodol creadigol eu hunain. Rydym hefyd yn credu'n ddwfn yng ngwerth y celfyddydau wrth gynyddu hyder, cysylltiadau a sgiliau bywyd, ac mewn creu mannau lle gall pobl archwilio eu creadigrwydd a darganfod beth sy'n bosibl iddyn nhw.

Dros y blynyddoedd rydym wedi llunio ymdeimlad cryf o gymuned a diwylliant sy'n gynnes, cefnogol, uchelgeisiol ac, yn bwysig, yn llawen. Credwn bod pobl yn gwneud eu gwaith gorau pan fyddant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu dwyn eu hunain yn llwyr i'r hyn y maent yn ei wneud. Rydym yn gobeithio y byddwch yn profi'r ysbryd hwnnw trwy gydol y broses.

Os hoffech chi sgwrsio am unrhyw beth cyn ymgeisio, neu os oes rhywbeth y gallwn ni ei wneud i'ch cefnogi chi neu wneud y broses recriwtio yn fwy hygyrch, cysylltwch trwy jobs@hijinx.org.uk

Diolch eto am roi amser i ystyried ymuno â Hijinx. Rydym yn gwirioneddol edrych ymlaen at gael dysgu mwy amdanoch a sut y gallech gyfrannu at y Tîm Datblygu Artistiaid, gan helpu i greu cyfleoedd croesawus, cynhwysol a chreadigol i'n hartistiaid a'n cyfranogwyr yn ne Cymru.



Amy Griggs, Cyfarwyddwr Datblygu Artistiaid



EIN GWELEDIGAETH

Byd lle mae pobl ag anableddau dysgu a/neu bobl awtistig yn cael eu grymuso a'u gwerthfawrogi, ac yn cael mynediad teg at gyfleoedd fel artistiaid ac ym mhob agwedd ar fywyd.

EIN CENHADAETH

Ni yw prif gwmni theatr cynhwysol Cymru. Rydym yn pledio achos artistiaid ag anableddau dysgu a/neu awtistig trwy:

- Creu theatr y mae'n rhaid i chi ei weld yn cael ei yrru gan ein hartistiaid sy'n teithio i gynulleidfaoedd trwy Gymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol
- Datblygu a chefnogi artistiaid i weithio'n broffesiynol yn Hijinx a thu hwnt.
- Trwy ymgysylltu creadigol, llunio cymuned, hyder a sgiliau bywyd.

Defnyddio llawenydd fel ffurf ar wrthsafiad, rydym yn creu gwaith sy'n procio, yn llawn effaith ac yn eithriadol o adloniadol.



Lost and Found, Jonathan Dunn

BETH RYDYN NI'N EI WNEUD

Mae Hijinx yn creu theatr wefreiddiol a gwrthdroadol sy'n cael canmoliaeth uchel ledled y DU, Ewrop ac yn rhyngwladol, lle mae artistiaid ag anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth yn cael eu cynnwys bob cam o'r ffordd wrth lunio a pherfformio eu storïau.

Mae Academiâu Hijinx yn darparu'r unig gwrs hyfforddiant perfformio proffesiynol yng Nghymru ar gyfer actorion ag anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth ac rydym yn cynnig cyfleoedd na fyddwch yn dod o hyd iddynt yn unman arall. Rydym yn cynnal pum Academi ledled Cymru sydd â thros 60 o actorion dan hyfforddiant.

Drwy Hijinx Actors, rydym yn hyrwyddo ein hactorion i'r diwydiannau celfyddydol a chreadigol ehangach, yn ogystal â chynnig cyflogaeth yn uniongyrchol yn ein gwaith hyfforddi cyfathrebu sydd wedi ennill gwobrau. Rydym hefyd yn cynnig cyfleoedd ymgysylltu creadigol yng Ngogledd a De Cymru.

Mae Hijinx yn cydnabod, parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol. Rydym wedi ymrwymo i les ein staff, i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac i ddenu talent amrywiol o rannau o'r gymuned nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y sector diwylliant ar hyn o bryd i'n helpu i ddatblygu gweithlu mwy amrywio.

Rydym yn **CREU NEWID** trwy fyw ac anadlu ein **Nodau:**



1. Cynyddu cynrychiolaeth rhai ag anabledd dysgu/awtistiaeth ar y llwyfan a'r sgrin.

“Mae Hijinx wedi newid fy mywyd. Mae’n wych bod gyda Hijinx, rydych yn teimlo’n rhydd a’ch bod yn gwneud mwy gyda’ch bywyd. Rydych yn cael cyfleoedd nad ydych yn disgwyl iddyn nhw ddigwydd.”

– Victoria Walters, Actor Hijinx



2. Cynyddu hyder, hapusrwydd ac annibyniaeth.



4. Darparu, pledio o blaid a hwyluso cyflogaeth broffesiynol i artistiaid proffesiynol creadigol ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth.



3. Cynyddu mynediad at y celfyddydau perfformio i gynulleidfaoedd a chymunedau yng Nghymru.



5. Trawsnewid y sector i weithio’n fwy cynhwysol.

DISGRIFIAD SWYDD

CYDLYNYDD DATBLYGU ARTISTIAID - DE

Yn Hijinx mae Datblygu Artistiaid yn ganolog i'n cenhadaeth. Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo artistiaid ag anabledd dysgu a/neu awtistig, gan eu cefnogi i ddatblygu eu hymarfer creadigol, sgiliau, hyder ac uchelgais, a chreu cyfleoedd i weithio'n broffesiynol yn Hijinx ac ar draws y diwydiannau creadigol ehangach. Credwn mewn creu'r amodau i bobl dyfu, llunio cysylltiadau ystyrlon, cymryd risgiau creadigol a ffurfio eu dyfodol creadigol eu hunain. Rydym hefyd yn credu'n ddwfn yng ngwerth y celfyddydau wrth gynyddu hyder, cysylltiadau a sgiliau bywyd, ac mewn creu mannau lle gall pobl archwilio eu creadigrwydd a darganfod beth sy'n bosibl iddyn nhw.

Ar hyn o bryd rydym yn recriwtio Cydlynnydd Datblygu Artistiaid ar gyfer ein canolfan yn ne Cymru i gefnogi'r rhaglen Ddatblygu Artistiaid ar sail barhaol. Mae hwn yn gyfle gwych i ymuno â'r cwmni theatr prysur a chyffrous hwn a chael effaith gadarnhaol.

Gan weithio'n glos gyda'r Swyddog Datblygu Artistiaid a'r Cyfarwyddwr Datblygu Artistiaid, bydd y Cydlynnydd yn rhoi cefnogaeth drefniadol ac ymarferol i weithgareddau Academiâu Hijinx a'r Sylfeini Drama yn ne Cymru. Mae'r swydd yn cynnwys llunio perthynas gadarnhaol gyda'r artistiaid, cyfranogwyr, eu teuluoedd a'u rhwydweithiau cefnogi, gweithwyr llawrydd, gwirfoddolwyr, lleoliadau a rhanddeiliaid eraill. Trwy'r cysylltiadau hyn bydd y Cydlynnydd yn helpu i greu profiadau o safon uchel, cynhwysol lle mae pawb yn teimlo bod croeso iddynt, eu bod yn cael eu cefnogi ac yn gallu ffynnu. Rydym yn chwilio am chwaraewr tîm trefnus, llawn cymhelliant gyda sgiliau cyfathrebu da, blaengaredd ac angerdd gwirioneddol am y theatr, y celfyddydau ac ymarfer cynhwysol.



DISGRIFIAD SWYDD PARHAD.

CYDLYNYDD DATBLYGU ARTISTIAID - DE

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio yn gydweithredol gyda'i gydweithwyr, yn cyfrannu at ddatblygu cyfleoedd creadigol i artistiaid a chyfranogwyr Hijinx, ac yn cefnogi darparu'r rhaglenni Academi a Sylfeini Drama yn effeithiol.

Pobl sy'n dod gyntaf. Bydd yr unigolyn llwyddiannus yn cyfranogi'n weithredol yn ein sesiynau, yn ogystal â chefnogi recriwtio ar gyfer ein gweithgareddau a bod yn fan cyswllt croesawus o ran ymholiadau, gan helpu i sicrhau bod ein hartistiaid, cyfranogwyr a'r gymuned ehangach yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi.

Fel un o gynrychiolwyr allweddol Hijinx yn ne Cymru bydd yn llunio cysylltiadau rhagorol gyda phartneriaid yn y gymuned ac yn rhanbarthol, gan ein helpu i gynnal ein safonau uchel o ran darpariaeth.

Bydd y Cydlynnydd yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a phrofiad trwy weithio ochr yn ochr â'n tiwtoriaid llawrydd talentog, artistiaid sy'n ymweld a chydweithwyr o Hijinx, ochr yn ochr â hyfforddiant perthnasol a datblygiad proffesiynol.





Meet Fred, Kirsten McTernan

CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

Gweithgareddau

- Bod yn bresennol a chymryd rhan weithredol mewn sesiynau a rhoi cymorth i weithgareddau redeg yn llyfn, gan weithio gyda thiwtoriaid llawrydd, hwyluswyr, gwirfoddolwyr a staff Hijinx.
- Gweithredu fel cyswllt cyntaf i weithgareddau Hijinx yng Nghaerdydd i artistiaid, cyfranogwyr, teuluoedd/ rhwydweithiau cefnogi, gweithwyr llawrydd, lleoliadau, rhanddeiliaid eraill fel timau gofal cymdeithasol.
- Cynnal cysylltiad gwaith rhagorol gyda'n cyfranogwyr presennol a chyfranogwyr posibl, rhieni/gofalwyr, y tîm llawrydd a'r gwirfoddolwyr, partneriaid mentrau cymdeithasol, awdurdodau lleol, a lleoliadau.
- Sicrhau cyswllt cyson gyda'r holl weithgareddau Datblygu Artistiaid a chyfranogwyr yn ne Cymru.
- Cydweithio gyda Swyddogion Adnoddau Dynol i greu rotas i sicrhau bod digon o aelodau staff ar gael ar gyfer pob sesiwn a bod prif swyddfa Hijinx yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r rota
- Cysylltu gyda'r lleoliad i archebu a'r anghenion o ran ystafell.
- Cefnogi cyfranogwyr ag anabledd dysgu a/neu awtistig, hwyluswyr a lleoliadau ein gweithgareddau, wrth ddatblygu ymarfer cynhwysol, gan sicrhau hygrychedd.
- Ymgymryd â gweinyddu gweithgareddau Hijinx o ddydd i ddydd yn ne Cymru – gan gynnwys cadw cofnodion cywir, cofrestri, adroddiadau am ddigwyddiadau ac adroddiadau am ddamweiniau yn brydlon.



Christmas No.1 (Hijinx Odyssey 2025),
Kirsten McTernan

CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL PARHAD.

Recriwtio, Blasu a Chynefino

- Cysylltu gyda gwasanaethau cymdeithasol/rhwydweithiau cefnogi i hyrwyddo cyfleoedd sydd ar gael trwy Hijinx.
- Trefnu sesiynau blasu i artistiaid posibl a chyfranogwyr a rhoi adroddiad ar addasrwydd i'r Swyddog Adnoddau Dynol
- Trefnu'r broses gynefino i artistiaid a chyfranogwyr newydd – gan rannu gwybodaeth a goruchwyllo'r trosglwyddiad i weithgareddau.

Diogelu, Lles a Llesiant

- Bod yn gyfrifol am ddiogelu, lles a llesiant myfyrwyr a rhoi adroddiad am unrhyw absenoldebau, problemau sylweddol neu bryderon i'r aelod priodol o'r staff
- Cadw eich gwybodaeth yn gyfredol am bolisiâu a gweithdrefnau Hijinx, a sicrhau bod cydymffurfio â hwy a'u bod yn cael eu gweithredu, yn neilltuoel y rhai yn ymwneud â diogelwch, llesiant a diogelu cyfranogwyr a gweithwyr llawrydd.
- Sicrhau bod yr holl wiriadau DBS Trylwyr yn gyfredol i'r rhai sy'n gweithio yn ne Cymru.
- Cwblhau hyfforddiant Diogelu, Cymorth Cyntaf, Strôc, EpiPen a phob hyfforddiant perthnasol angenrheidiol.

Arall

- Cynrychioli Hijinx i randdeiliaid allanol a hyrwyddo'r sefydliad yn gadarnhaol ar bob lefel.
- Cymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant mewnol neu allanol a datblygu a ddarperir gan yr elusen.

MANYLEB PERSON

Sgiliau a Gallu	Hanfodol	Dymunol
Parodrwydd i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau gweithdy a pherfformiadau, yn ôl y gofyn	X	
Y gallu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd mewnol ac allanol cadarnhaol ar bob lefel	X	
Cyfathrebwr effeithiol a difyr	X	
Llythrennedd cyfrifiadurol, yn gallu dysgu a gweithio gydag amrywiaeth o becynnau meddalwedd swyddfa amrywiol	X	
Trefnus, effeithlon, hyblyg a pharod i addasu gyda sylw rhagorol i fanylion	X	
Yn gallu ymdrin â data personol a gwybodaeth mewn modd proffesiynol ac yn unol â deddfwriaeth diogelu data	X	
Y gallu i weithio'n ddigymell gydag ychydig iawn o oruchwyliaeth gydag ymholiadau arferol wrth iddynt godi gan eu dyrchafu i eraill yn ôl y gofyn	X	
Siaradwr Cymraeg		X
Yn gallu gweithio'n greadigol ac yn gydweithredol i ddatrys problemau ac ymdrin â heriau	X	

PERSON SPECIFICATION CONT.

Profiad	Hanfodol	Dymunol
Profiad o roi cefnogaeth weinyddol mewn swydd debyg	X	
Profiad o ryngweithio gyda phobl ag anabledd dysgu a/neu awtistig mewn lleoliad personol neu broffesiynol		X
Profiad o ddiogelu mewn unrhyw leoliad		X
Profiad o gofnodi data a chadw cofnodion cywir		X
Profiad o weithio mewn swyddogaeth les, gan gefnogi llesiant pobl eraill	X	
Agwedd	Hanfodol	Dymunol
Llawn cymhelliant gydag angerdd am y celfyddydau perfformio	X	
Hyder wrth gymryd rhan mewn gweithdai ymarferol a pherfformio mewn sioeau, rhannu a chyflwyniadau cyhoeddus eraill	X	
Yn mwynhau amgylchedd gwaith prysur, yn gallu mynd ati ar unwaith a gweithio ar nifer o brosiectau ar yr un pryd	X	

PERSON SPECIFICATION CONT.

Attitude		
Wedi ymrwymo i gynhwysiant a hygyrchedd	X	
Dysgwr angerddol sydd bob amser yn ymdrechu i chwilio am syniadau / dulliau newydd	X	
Yn ymdrin â sefyllfaoedd anodd yn dawel ac yn cyfrannu at ddod o hyd i ffordd ymlaen	X	
Yn dangos sensitifrwydd a pharch at eraill	X	
Chwaraewr tîm rhagorol, gyda dull hyblyg o weithio	X	

TELERAU

- Teitl swydd:** Cydlynnydd Datblygu Artistiaid – De
- Rheolwr Llinell:** Swyddog Datblygu Artistiaid
- Contract:** Parhaol
- Oriau:** Pedwar diwrnod yr wythnos (Dydd Llun - Dydd Iau, 3 diwrnod o waith ymarferol ac ar sail gweithgareddau, 1 diwrnod ar gyfer gweinyddu) gyda pheth gwaith ar fin nos a phenwythnosau y bydd amser o'r gwaith in lieu yn cael ei roi ar ei gyfer.
- Yn gweithio o:** Bydd y swydd hon yn bennaf ar leoliad gyda gweithgareddau Hijinx yng Nghanolfan Chapter, Caerdydd – bydd y rhan fwyaf o'r amser gweinyddol hefyd yn cael ei dreulio o'n swyddfa newydd yn Chapter gyda'r posibilrwydd o weithio o gartref neu Swyddfa Hijinx ym Mae Caerdydd
- Cyflog/Buddion:** Graddfa D, cyflog cychwynnol £28,000 y flwyddyn (pro-rata) (£22,400 gwirioneddol)

Mae Hijinx yn cynnig cynllun pensiwn gweithle trwy Nest, cynllun Beicio i'r Gwaith a Rhaglen Cynorthwyo Gweithwyr.

Yn ychwanegol, rydym yn cynnig cefnogaeth i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg. Mae Hijinx wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus a bydd yn gweithio'n glos gyda deiliad y swydd i sicrhau bod ei anghenion hyfforddiant yn cael eu bodloni.

Gwyliau: 30 diwrnod o wyliau blynyddol (pro rata ar gyfer contractau rhan-amser a thymor penodol) a gwyliau banc statudol

*Doctor Dolittle's Wild Adventure
(Hijinx Odyssey 2022),
Kirsten McTernan*



NODIADAU CYFFREDINOL

- Yn Hijinx rydym wedi ymrwymo i greu gwaith sy'n gwneud gwahaniaeth.
- Mae ein cynlluniau'n uchelgeisiol, wedi eu creu ar gyfer, gan a gyda'r cymunedau yr ydym yn gweithio gyda nhw.
- Rydym yn angerddol am yr hyn yr ydym yn ei wneud ac mae gennym ymdeimlad cryf o gymuned. Fel tîm rydym yn poeni'n ddwys am deulu ehangach Hijinx ac mae gennym ddiwylliant cynnes, cynhwysol a chefnogol sy'n gadael i bobl fyw eu bywydau gorau, mwyaf dilys. Rydym wedi ymrwymo i ymdrin â diffyg cyfartaledd yn y byd celfyddydol yng Nghymru gan roi actorion ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth yn ganolog ar draws pob rhan o'n gwaith.
- Yn ogystal â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a restrir ac yn unol â'n hymagwedd gydweithredol, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd wneud unrhyw waith cyffredinol arall fel sy'n briodol i'w rôl ar gais ei reolwr llinell.

Diogelu - Mae cynnig cyflogaeth yn amodol ar wiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).



Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu dogfennau sy'n dangos ei hawl i fyw a gweithio yn y Deyrnas Unedig.



HYGYRCHEDD A CHYNHWYSIANT

Mae Hijinx yn cydnabod, parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau unigolion. Rydym wedi ymrwymo i les ein staff, i fod yn gyflogwr **Cyfle Cyfartal a Hyderus am Anabledd**, a denu talent amrywiol o rannau o'r gymuned nad ydynt wedi eu cynrychioli'n ddigonol yn y sector diwylliant.

Fel rhan o'n hymrwymiad i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu yn Hijinx, rydym yn darparu **Cynllun Cyfweliad Gwarantedig** i ymgeiswyr nad oes digon o gynrychiolaeth ohonynt ar ein tîm. Gallwch gael eich ystyried dan y Cynllun Cyfweliad Gwarantedig os ydych yn dioddef hiliaeth, yn Fyddar, anabl, yn berson ag anabledd dysgu, niwrowahanol, â chyflwr corfforol neu iechyd meddwl tymor hir, yn LHDTC+ neu yn uniaethu fel rhywun dosbarth gweithiol. Ar yr amod eich bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, sy'n cael eu nodi yn y fanyleb person, byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad. Dim ond gyda thîm adnoddau dynol Hijinx a'r rheolwr sy'n recriwtio y bydd eich cais am gyfweliad gwarantedig yn cael ei rannu.

Os hoffech chi gael eich ystyried dan y cynllun, dynodwch hyn yn glir yn eich cais.

Pwysig: dan rai amgylchiadau recriwtio fel amseroedd prysur, efallai y bydd raid i ni gyfyngu'r nifer o gyfweliadau a gynigir. Bydd hyn yn cynnwys y nifer o gyfweliadau a gynigir trwy'r Cynllun Cyfweliad Gwarantedig. Yn y sefyllfa hon, bydd Hijinx yn sicrhau bod nifer deg a chymesur o ymgeiswyr o gymunedau nad ydynt yn cael cynrychiolaeth ddigonol (sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd hon) yn cael cynnig cyfweliad.



I WNEUD CAIS

Os credwch eich bod chi yn addas ar gyfer y swydd ac y byddech yn hoffi ymgeisio, anfonwch y canlynol atom:

1. **CV cyfredol** – yn amlygu unrhyw brofiad, sgiliau a chymwysterau perthnasol.
2. **Llythyr esboniadol dim mwy na 4 tudalen** – yn dweud wrthym ni pam bod gennych ddiddordeb yn y swydd a sut y mae eich profiad yn cyd-fynd â'r fanyleb person.
3. **Ffurflen Monitro Amrywiaeth wedi ei llenwi** – i'w llenwi ar-lein yma. Cadarnhewch yn y llythyr esboniadol eich bod wedi llenwi'r ffurflen hon.

Rydym yn gwybod y gall ymgeisio am swyddi fod yn brofiad anodd weithiau – yn arbennig os nad yw prosesau arferol yn gweithio i chi bob tro. Os nad ysgrifennu yw eich dewis o ran cyfathrebu, gallwch anfon fideo neu ffeil sain atom (hyd at 5 munud) yn hytrach na llythyr esboniadol ysgrifenedig.

Dylid anfon ceisiadau at jobs@hijinx.org.uk erbyn **canol nos, 23 Tachwedd 2026**.

AMSERLEN RECRIWTIO

23 Tach: Ceisiadau yn cau am hanner nos

w/c 23 Tach: Ceisiadau yn cael eu sgrinio a'u gwneud yn ddienw

w/c 30 Tach: Llunio rhestr fer

4 Rhag: Bydd pob ymgeisydd wedi cael penderfyniad a'r gwahoddiadau i gyfweliad wedi eu hanfon

11 Rhag: Cyfweliadau

15 Rhag: Penderfyniad a rhoi cynnig

Rydym yn gwybod bod amgylchiadau pawb yn wahanol, felly rydym yn barod i weithio gyda'r ymgeisydd llwyddiannus i gytuno ar ddyddiad dechrau sy'n teimlo'n iawn, gan ystyried yr ymrwymïadau sy'n bodoli ac argaeledd.

**Edrychwn
ymlaen at
gael clywed
gennych chi!**



jobs@hijinx.org.uk



029 2030 0331